

Llais Ogwan



Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 515 · Rhagfyr 2020 · Rhifyn Digidol · Am Ddim

Nadolig 2020



Teg yw dweud y fydd nifer helaeth o ddarllenwyr y Llais yn falch o weld diwedd ar flwyddyn, yn y lleiaf, heriol. Blwyddyn o newidiadau sylweddol yn mhob o agwedd o'n bywydau.

Er hyn, mae'n hawdd anghofio yr ochr bositif o'r cyfnod hwn. Mae pobol wedi addasu'n rhyfeddol i'r heriau mewn ffyrdd greadigol. Ffrindiau a theuluoedd wedi bod yn cysylltu'n rhithiol, Cymunedau wedi dod ynghyd a busnesau a siopau bach wedi dod i'r adwy drwy gydol y cyfnod clo. Wrth i ragor o fanylion gael ei gyhoeddi yn ddyddiol am y frechiad newydd, mae'n

edrych yn bur addawol y fod diwedd ar y gorwel i'r hunllef.

Erbyn i'r Llais eich cyrraedd, mi fydd un llygedyn o oleuni pellach (llythrennol) ar Stryd Fawr Bethesda gyda dyfodiad y goleuadau Nadolig newydd. Hir yw pob ymaros! Diolch i Partneriaeth Ogwen am eu gwaith caled di-flino wrth drefnu'r goleuadau newydd, yn ogystal a'r holl brosiectau arall sy'n cael ei gydlyn ganddynt.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Llais, ble bynnag yr ydych yn y byd!

Y Nadolig

Seren fwyn uwch siwrnai faith, – a'i golau'n
Ein galw i'r ymdaith;
Hanfod ein dyfod ar daith
Yw hybu'n ffydd a'n gobaith.
Dilwyn Owen

Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 07815 093955
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
☎ 07867 536102
carwynnian@hotmail.com

Rhys Llwyd
☎ 01248 601606
rml42@live.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreynortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com



Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Owain Evans.

Y golygydd ym mis Ionawr fydd
Neville Hughes, Bryn Ffrydlas,
14 Ffordd Pant, Bethesda,
Gwynedd, LL57 3PA.
01248 600853.

E-bost: nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Iau,
31 Rhagfyr os gwelwch yn dda.
Ni fydd angen casglu a dosbarthu
gan mai rhifyn digidol fydd hwn.

DALIER SYLW: NID OES
GWARANT Y BYDD UNRHYW
DDEUNYDD FYDD YN
CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn
yn swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi
o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un
o'r canlynol:
Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Rhoddion i'r Llais

- £75.00 Cyngor Cymuned
Llanddeiniolen
- £300.00 Cyngor Cymuned Pentir
- £25.00 Er cof am Llinos Williams,
Llanddaniel, oddi wrth Emyr,
Heulwen, Menai a Marc.
- £25.00 Er cof am Bronwen a fu farw
29 Rhagfyr 2017, oddi wrth
Alan Davies, Porthaethwy.
- £100.00 Er cof annwyl am Rhiannon
Rowlands oddi wrth Arthur a'r
teulu.
- £10.00 Emyr a Heulwen Roberts,
Bethesda.

Diolch yn fawr.



Apêl Arbennig y Llais

- £5.00 Morfudd Roberts, Erw Las,
Bethesda.
- £5.00 Sheila Owen, Dôl Helyg,
Talybont.
- £20.00 Ceri ac Aled Hughes, Cil Marian,
Bryn, Llandygai.
- £30.00 Dafydd Roberts, Bwthyn Cefn
Braich, Rhiwlas.
- £6.00 Margaret a John Baston,
Bro Emrys, Talybont.
- £5.50 Gary, 2 Cae Bach, Talybont.
- £5.50 Maureen a John Evans,
6 Cae Bach, Talybont.
- £20.00 Gaynor Elis-Williams, Carneddi.
- £6.00 Eirlys Ellis, Bro Emrys, Talybont.
- £6.00 Ian a Joy, Llwyn Onn, Talybont.
- £6.00 Nia Llwyd, Tai Newyddion,
Talybont.
- £5.00 Anna Jones er cof annwyl am y
ffrindiau a gollwyd yn 2020.
- £30.00 Donna Coleby, Preston.
- £20.00 Di-enw, Braichmelyn.
- £10.00 Di-enw, Glanogwen, Bethesda.
- £10.00 Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel.
- £20.00 Gwen Ellis a Wyn Bowen
Harries, Cap Coch, Talybont.
- £3.00 Mân roddion.
- £84.80 Susan Jeffries, Caerdydd.
- £22.40 Shirley Carruthers, Bae Penrhyn.
- £20.00 Meryl Edwards, Llanfairpwll.
- £3.00 Caryl Lloyd Pritchard, Carneddi.
- £20.00 Fflur Roberts, Garneddwen,
Bethesda.
- £25.00 Wyn ap Iorwerth, Mynydd
Llandygai.
- £40.00 Di-enw, Rachub
- £25.00 Brian a Gill Griffith, Caerdydd.
- £16.00 Nia a John Bagnall, Pennard,
Llandygai.
- £100.00 Di-enw, Bryn, Llandygai.
- £10.00 Enid Lloyd Davies, Llanfairpwll.
- £20.00 Arthur a Nerys Rowlands,
Cefnddwysarn.

CYFARCHION
NADOLIG

I BAWB YN
NYFFRYN OGWEN,
ODDI WRTH ARTHUR
A NERYS ROWLANDS,
PANDY, CEFNDDWYSARN



Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

O gofnodion Cyngor Llanddeiniolen

Ciosg Diffriblydd Rhiwlas

Ynglŷn â'r Ciosg ble gosodwyd y diffriblydd. Daeth y Cyngor i'r casgliad mai'r rheswm nad oedd y golau yn dod ymlaen yn y Ciosg oedd am fod golau stryd llachar uwch ei ben yn gwneud i'r swits feddwl ei fod yn ddydd.

Nodwyd fod y golau yn gweithio, a mai'r lamp uwchben oedd y broblem. Mae'r Cyngor wedi gwario yn helaeth ar ddod a'r ciosg i safon er mwyn gallu gosod diffbriliwr, gan gynnwys talu am osod drws a golau newydd ynddo ar gost o bron i £500. Gan fod yna olau llachar ar y diffbriliwr ei hun, penderfynwyd nad oedd hyn yn ormod o rwystr i'w ddefnyddio. Awgrymwyd, gan fod yna bwyllgor diffbriliwr yn y pentref, a chan nad yw'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am ddim un diffriblydd arall o fewn y gymuned, efallai ei bod yn amser i'r Pwyllgor yna gymryd cyfrifoldeb am y ciosg. Yn y cyfamser, mae'r cynghorwyr cymunedol y pentref am fynd i edrych ar y sefyllfa gyda'r nos, a gweld os oes

modd rhoi rhyw orchudd dros y switsh fel ei fod yn gweithio gyda'r nos.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lowri Owen, Caeau Gleision a'i chymar Adam ar enedigaeth hogyn bach, Gwil Alun. Ein dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Drama'r Nadolig

Eleni yn sgil y pandemig a'r cyfyngiadau sydd arnom, bydd y ffordd rydym yn dathlu'r Nadolig yn siŵr o fod yn wahanol. Un traddodiad sydd yn agos at galon llawer yw gweld Drama'r Geni gan blant Capel Penrallt. Aeth y plant ati i wneud pethau mewn ffordd wahanol y tro hwn, gan fflmio'r stori tu allan yn y wlad. Ffilmwyd y ddrama yn Rhiwlas, a Harvey a Finley Lenon efo rhannau blaenllaw. Cafwyd cryn hwyll! Mae croeso i weld yr hen, hen stori unwaith yn rhagor mewn gwasanaeth ar wefan y Capel, www.penrallt.org, o'r 4ydd o Ragfyr ymlaen.

Calendr Llais Ogwan

Ni fyddwn yn gwerthu o dŷ i dŷ eleni oherwydd Cofid-19, os dymunwch gael un cysylltwch â mi ar 01248 355336. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a chofion atoch i gyd.



Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

SAMARIAID

Mac Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

SIOP OGWEN

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

01248 208 485

Englyn Coffa Alun Owen

Er cof annwyl am 'Alun Bronnydd' Bu'n hwyliog ers yn hogyn – haul ei wên Yn oleuni sydyn, Ond daeth braw y glaw'n y glyn, Dagrau'n lle hwyliau Alun.

Annes Glynne
Hydref 2020

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan



Gwobrau Awst

£30.00 (187) Beryl Orwig, Braichmelyn.
£20.00 (151) Lester Bath, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.
£10.00 (95) Gwyneth Morris, Gwaen y Gwail, Gerlan.
£5.00 (64) Rita Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda.

Gwobrau Medi

£30.00 (7) Jean O. Hughes, Bryn Awel, Talybont.
£20.00 (93) Karen Aston, Erw Las, Bethesda.
£10.00 (38) Beryl Wynne Edwards, Sgwâr Buddug, Bethesda.
£5.00 (170) Morfudd W. Roberts, Erw Las, Bethesda.

Gwobrau Hydref

£30.00 (79) Mair A. Griffith, Waen Wen.
£20.00 (14) Evelyn Lupson, Pensby.
£10.00 (146) Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel.
£5.00 (98) Godfrey D. Northam, Llwyn Bedw, Rachub.

Gwobrau Tachwedd

£30.00 (119) Helen Wyn Williams, Llwyn Bleddyn, Rachub.
£20.00 (116) Gwyn Roberts, Rhes Buddug, Bethesda.
£10.00 (156) Sandra Williams, Stryd Goronwy, Gerlan.
£5.00 (36) Marian Humphreys, Stryd Cefnfaes, Bethesda.

Gwobrau Rhagfyr

£30.00 (78) Dafydd Roberts, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas.
£20.00 (85) Fflur Roberts, Garneddwen, Bethesda.
£10.00 (156) Sandra Williams, Stryd Goronwy, Gerlan.
£5.00 (67) Sheila Owen, Dôl Helyg, Talybont.

Byddem yn croesawu aelodau newydd i'r Clwb. Os yn awyddus i ymuno, cysylltwch â Neville Hughes ar 01248 600853. Diolch yn fawr.



Talybont

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda ☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Nadolig Gwahanol

Mae'n anodd dychmygu Gŵyl y Nadolig eleni heb y pethau sydd agosaf at ein calonnau ni'r Cymry. Gwynebwn Nadolig heb wasanaethau carolau yn yr eglwys; heb gyngherddau ddiwedd tymor yn yr ysgolion; a heb y bandiau prês, i'n hatgoffa'n llawen mai prif amcan yr ŵyl yw dathlu genedigaeth babi arbennig iawn, dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ym Methlehem. Rhyfedd o fyd!
Yma, yn Nhalybont, mae'r coed Nadolig a'r trimins yn y ffenestri, a phawb yn benderfynol o ddathlu'r ŵyl orau medrwn

ni. Wedi'r cyfan, cadw'n iach ac yn ddiogel yw'r nôd eleni, a boed i hynny fod yn wir i bob un ohonom.

Ysbyty

Mae Mrs. Sheila Owen (Redfern, gynt) yn dymuno diolch i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau, galwadau ffôn, a'r blodau a dderbyniodd yn dilyn ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd y mis diwethaf. Mae hi adref erbyn hyn, ac yn cryfhau. Edrychwn ymlaen at y tywydd braf, inni gael eistedd yn yr ardd a rhoi'r byd yn ei le dros banad.

Mae Mrs. Myfanwy Jones, 68 Bro Emrys (Myfanwy John Ambiwylans) wedi cael triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd. Bellach, mae hithau'n dod yn ei blaen yn dda gartref, o dan lygad barcud y teulu; yn enwedig y plant, sy'n meddwl y byd o'u Nain.

Colli Rita

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf

at Alison, Anthony, ac Anne, ei phlant, ac at holl deulu Mrs. Rita Jones, fu farw'n dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Dachwedd 19eg.

Mae Rita wedi mynd o Dalybont i fyw i Benrhosgarnedd ers peth amser bellach, ond wedi iddi waelu, gorfu iddi symud i Gartref Nyrsio Bryn Seiont Newydd yng Nghaernarfon, lle y derbyniodd ofal da.

Byddai wrth ei bodd yn tyfu blodau, yn y pridd neu mewn potiau. Rydym yn dal i golli'r môr o liw o'i gardd, wrth fynd heibio'r tŷ yng Nghae Gwigin.

Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Rita, ym mhresenoldeb ei theulu, ar Dachwedd 30ain yn Amlosgfa Bangor. Derbyniwyd rhoddion er côf amdani at Dementia U.K.

Methu Ffarwelio'n iawn

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai anodd inni yma, yn Nyffryn Ogwen. Mae cymaint o'n ffrindiau

wedi mynd o'n plith, heb inni gael cydymdeimlo'n iawn efo'u teuluoedd, na thalu'r gymwynas olaf yn y ffordd arferol.

Croeso

Ar nodyn hapus, estynnwn groeso mawr i Gwen Ellis a Wyn Bowen Harries i 'Gap Coch', Tyddyn Cottages. Gwyddom am eu bwriad i adael Pant y Gwair Isaf a dod i lawr atom i Dalybont erystalwm ac, o'r diwedd, mae'r diwrnod mawr wedi cyrraedd.

Gwen a Wyn, gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith, ac y cawn eich cwmni lawer gwaith pan ganiateir inni ail-ddechrau gweithgareddau yn y pentref. Brysied y dydd!

Hyn o newyddion o Dalybont sydd gennym y mis yma. Dymunwn Nadolig iach a bendithiol i bawb, lle bynnag y bônt, a Blwyddyn Newydd well o lawer.



Capel Bethlehem

Oedfaon

Ar brynhawn Sul, 13eg Rhagfyr, cynhaliwyd oedfa Nadolig wahanol dan ofal ein gweinidog, y Parchedig John Pritchard. Er nad oedd yn bosib i'r gynulleidfa ganu carolau oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws, cymerwyd rhan gan rai o aelodau'r capel. Gwnaed casgliad arbennig tuag at Gymorth Cristnogol.

Byddwn yn cynnal oedfa yn fisol yn chwarter cyntaf y flwyddyn newydd. Felly bydd yr oedfa nesaf ar 10 Ionawr 2021 am 2 o'r gloch.

Cyfarchion yr ŵyl

Dymuniadau gorau a phob bendith dros y Nadolig i aelodau Bethlehem ac i bawb arall hefyd.

Eglwys St. Cross

O'r diwedd, rydym wedi ail-agor yr eglwys i'r cyhoedd! Cynhaliwyd y gwasanaeth cyntaf ers mis Mawrth ar Dachwedd 29ain, Sul yr Adfent - dechrau'r flwyddyn eglwysig. Daeth aelodau Eglwys St. Cross ac Eglwys St. Tegai ynghyd, yn gwisgo ein gorchuddion gwyneb ac yn cadw pellter 2 fedr rhyngom (unnai unigolion neu deuluoedd a ffrindiau mewn 'bubble'), i ddathlu Cymun, gyda'r Archddiacon Mary Stallard yn arwain. Er nad ydym yn cael canu emynau ar hyn o bryd, llanwyd y bwlch gan Geraint Gill ar yr organ.

Rydym am geisio cynnal gwasanaethau mwy neu lai bob Sul o hyn ymlaen. Daethom at ein gilydd unwaith eto ar Ragfyr 6ed a 13eg i gynnal gwasanaeth Boreol Weddi. Dyma drefniadau ar gyfer gweddill y mis a dechrau mis Ionawr:

Rhagfyr:

20fed - dim gwasanaeth, ond gwasanaeth carolau yn Eglwys Crist, Glanogwen
25ain, Dydd Nadolig - 10.30 a.m. - Cymun y Nadolig
27ain - dim gwasanaeth

Ionawr:

3ydd - 11.00 a.m.
Gwasanaeth Carolau y Nadolig a'r Adfent - bydd y gwasanaeth yn cynnwys darlleniadau, a cherddoriaeth y tymor ar yr organ; efallai bydd modd i grŵp bach ganu.
Oherwydd prinder lle yn yr eglwys, a rhag i chi gael eich siomi, buasai'n gwneud synnwyr i unrhyw un sydd am ddod i'r gwasanaethau gysylltu o flaen llaw â fi, Catrin, ac mi wnâi geisio fy ngorau i gadw sedd i chi - y cyntaf i'r felin!

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y gymuned, gan obeithio cawn weld goleuni ymhen draw'r twnnel yn fuan - 'Gwawr wedi hirnos, cân wedi loes' - 'Mae amser gwell i ddyfod!' Ac fel dywedodd Barbara mis diwethaf, i unrhyw un sy'n teimlo'n unig neu sydd angen cymorth, cofiwch gysylltu - mae pobl Tal-y-bont yn gymwynasgar tu hwnt. Diolch iddynt oll.

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

JR SGAFFALDIAU Cyf. JR SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



Calendr Llais Ogwan 2021

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2021 wedi ei rhyddhau er gwaethaf yr anawsterau oherwydd Covid-19. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a ddewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Richard Alwyn Jones a Gwasg Ffranccon am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei gwerthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon i werthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu a gwerthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr Ar werth am £4 eto eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda, a thrwy archeb gyda Cadwyn Ogwen
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Coed Y Brenin, Rhes Buddug, Bethesda
- Post Rachub
- Caffi Moelyci
- Llys y Gwynt (Siop SPAR)
- Siop Menai, Bangor
- Siop Na-nog, Y Maes, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy



Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS.
01248 605582 a 07887624459
henbarc13@gmail.com

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Siân Mererid a Gethin Sherrington, Hen Barc, ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau oddi wrth y ddau deulu.

Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth Ken Davies (Ken Jockey), Plas Maesincla – gynt o Lôn Groes a Maes Bleddyn. Cydymdeimlwn â'r teulu. Cydymdeimlwn â Keith a Valerie Thomas, Tan y Garth, a'r teulu wedi i frawd Keith; Selwyn Thomas, farw yn sydyn yng Nghyffordd Llandudno.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Megan a Deri Tomos, Sychnant, Llanllechid ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf, wedi genedigaeth Meredydd John, mab i Branwen a Cynon, eu mab; o Lanuwchllyn.

Capel Carmel

Mae rhai o aelodau Capel Carmel ac eraill yn dilyn oedfa ar y we trwy ddefnyddio Zoom am bump o'r gloch ar nosweithiau Sul gan y Parchedig John Pritchard.

Diolchwn i ferched Clwb Gweu Capel Carmel sydd wedi gweu sgarffiau, menyg a rhyw gant o gapiau ar gyfer Nadolig y Plentyn, Cymorth Cristnogol.

Cyngor Cymuned

Gwnaed arolwg o'r biniau halen gan y Cyngorhorwyr Cymunedol, fel y byddant yn cael eu hail lenwi ar gyfer y gaeaf.


Cyfarchion y Tymor

Dymuna Mr. Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'w deulu, ffrindiau a chymdogion.

Rhoddion

Rhoddwyd cyfraniad Nadolig o £20 i'r Llais er cof am Mr. William John Evans [helpar Siôn Corn], 15 Ffordd Llanllechid, a Glenys Evans, Ceunant, gan Mr Gwilym Rees, Karen, Tom a'r teulu.

Yn yr Ardd Blodau'r Nadolig



Poinsettia

Dyma'r adeg pan fyddwn yn cael blodau lliwgar ar gyfer y tŷ, ac yn eu plith Poinsettia sydd erbyn hyn i'w cael â dail coch, pinc, gwyn neu wyrdd golau. Maen nhw'n blanhigion tymhorol sy'n anodd eu cadw ar ôl misoedd y gaeaf. Am eu bod yn dod o'r trofannau, mae gwres canolog yn eu sychu, hefyd mae'n gas ganddyn nhw ddrafft.

Syclamen

Mae dau fath o Syclamen, y rhai bach, sy'n tyfu yn y goedwig (llysiau'r ddiol) a'r rhai mwy (syclamen Persicum) sy'n cael eu codi yn aml ar gyfer y farchnad Nadolig. Mae angen golau arnyn nhw ond nid haul cryf. Cadwch nhw'n llaith heb fod yn rhy wlyb.

Amaryllis

Dyma flodyn sydd ag arogl hyfryd; mae'n lliwgar ac yn hawdd i'w dyfu. Mae'n dechrau tyfu pan fo'r compost yn gynnes

ac yn llaith. Os ydych yn ofalus ohono, gall flodeuo am flynyddoedd.

Cynghorion i gnoi cil

Cadwch lyfryn bach i nodi beth a ble sydd wedi cael eu plannu yn yr ardd neu'r tŷ gwydr.

Gwnewch yn siŵr bod yr offer iawn i gyd gennych cyn i chi fentro i waelod yr ardd.

Gwasgarwch hadau pabi mewn cornel ddi-liw.

Mae dail bysedd y cŵn yn denu tyfiant mewn planhigion gerllaw ac yn help i wrthsefyll clefydau.

Nid yw ci a lawnt perffaith yn mynd gyda'i gilydd.

Byddwch yn ddiolchgar am y glaw – mae cymaint o'i angen â'r haul (oni bai eich bod am gael barbeciw).

Peidiwch â phlannu coed yn rhy agos i'r tŷ, ac yn sicr os ydych am gadw'ch cymdogion yn hapus, anghofiwch am blannu coed Leylandii!



Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eglwys Sant Tegai, Llandygai Nadolig Llawn!
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Nadolig Llawn i bawb yn Nyffryn Ogwen. Boed bendith yr ŵyl ar eich teuluoedd a'ch cartrefi. Dymuniadau gorau hefyd i bawb sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gwaith Atgyweirio yn parhau
Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf mae'r gwaith atgyweirio yn symud ymlaen yn araf. Er y tywydd garw gweithiodd yr adeiladwyr ar y to ond erys yr eglwys yn safle adeiladu.
Mae'n bwysig i ni felly ail-gyhoeddi na fydd yn bosib cynnal unrhyw wasanaeth yn yr eglwys am gyfnod hir ac am y tro cyntaf ers blynnyddoedd ni fydd gwasanaeth traddodiadol o *Naw Llith a Charol* yng ngolau'r kannwyll ym mis Rhagfyr 2020, nac addoliad Noswyl y Nadolig. Cynhelir gwasanaethau y Nadolig mewn eglwysi eraill ym Mro Ogwen.

Rhoddion Apêl y Nadolig
Derbynnir yn ddiolchgar iawn unrhyw gyfraniad ariannol y Nadolig gan swyddogion yr eglwys cyn Rhagfyr 17eg, os yn bosibl. Sieciau trwy'r post yn daladwy i "Eglwys Llandegai" neu arian parod mewn amlen

gyda'ch enw, eich cyfeiriad llawn a chod post. Gellir ffonio am fwy o wybodaeth am daliadau uniongyrchol drwy'r banc neu am unrhyw fater arall.
Diolch i bawb yn y gynulleidfa fechan sydd yn cyfrannu yn reolaidd ac i fudiadau ac unigolion hael eraill yn y gymuned sydd yn cefnogi'r gwaith sylweddol o gynnal a chadw yr eglwys a'r fynwent yn ogystal â'r Prosiect Atgyweirio.
Rydym yn disgwyl apwyntiad Ficer a Gweinyddwr newydd i eglwysi Bro Ogwen ers i'r Parchedig a Mrs. John Matthews symud i blwyf newydd yn Seland Newydd yn yr Hydref 2019 felly gellir gyrru cyfraniadau i unrhyw un o'r swyddogion canlynol:

- Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)
- Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)
- Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU

Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai
Yn ystod cyfnod anodd y coronafirws mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost ac yn ymuno pob dydd Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Mae

Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yn wythnosol drwy ebost. Croeso i chi oleuo kannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdd a dweud gweddi gyda ni.
Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Deon Gwlad, Y Parchedig Lloyd Jones, Clynnog 01286 660656 neu â'r Archddiacon, Y Hybarch Mary Stallard, Llandudno ynglŷn ag unrhyw fater arall.

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd y Nadolig hwn

Mae Cyngor Gwynedd yn annog pobl y sir i gefnogi ein siopau stryd fawr a busnesau lleol y Nadolig hwn.
Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn anodd i'r gymuned fusnes oherwydd effeithiau Covid-19, ac mae'r Cyngor yn gobeithio y bydd yr ymgyrch yn y cyfnod yn arwain at yr ŵyl yn rhoi hwb i gwmnïau Gwynedd.
I gefnogi'r ymgyrch siopa Nadolig lleol, mae'r Cyngor yn darparu parcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor o 12 tan 27 Rhagfyr.
Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cynnal ymgyrch ar y gwefannau cymdeithasol yn annog pobl i gefnogi siopau lleol y Nadolig hwn. Fel rhan o'r ymgyrch, bydd gwybodaeth am lu o fusnesau lleol i'w gweld ar wefan <https://bit.ly/prynulleol2020>

Dywedodd y Cyngorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd:
"Mae busnesau ym mhob rhan o Wynedd, o Fangor i Aberdyfi, Pen Llŷn i Bum Plwyf Penllyn yn cynnig arlwy arbennig o gynnyrch a danteithion arbennig.
"Eleni, yn fwy nag erioed o'r blaen, mi fydd y cyfnod yn arwain at y Nadolig yn un hynod bwysig i'n busnesau, ac rydym yn gobeithio'n fawr y bydd pobl y sir yn gwneud ymdrech i gefnogi'r cwmnïau Gwynedd dros yr ŵyl. Dyma ein cyfle i ddiolch i'n busnesau am eu hymdrechion i helpu'r gymuned yn ystod cyfnod clo mawr.
"Wrth gwrs, bydd y profiad siopa yn wahanol eleni ac rydym yn annog pawb i barchu rheolau pellhau cymdeithasol os yn ymweld â'r stryd fawr er mwyn

cadw ein cymunedau yn ddiogel.
"Mae'n bwysig cofio fod nifer fawr o fusnesau Gwynedd hefyd yn cynnig gwasanaethau i brynu cynnyrch ar-lein, ac os ydi hynny'n bosib mae'n cynnig modd gwbl ddiogel o siopa'n lleol.
"Mae manylion am nifer o fusnesau Gwynedd sydd yn darparu gwasanaeth dros y we i'w gweld ar wefan <https://bit.ly/prynulleol2020> byddem yn annog unrhyw gwmni sydd heb gofrestru eu manylion i fanteisio ar y cyfle i wneud hynny gynted â phosib er mwyn elwa ar yr ymgyrch siopa Nadolig."
Meddai'r Cyngorydd Gareth Griffith, Aelod Cabinet Amgylchedd Gwynedd:
"Rydym yn falch o gynnig parcio am ddim unwaith eto ym meysydd parcio'r Cyngor yn y cyfnod yn arwain at y Nadolig. Gobeithio y

bydd pobl Gwynedd yn gwneud y mwyaf o'r cynnig i gefnogi busnesau stryd fawr y sir.
"Trwy siopa'n lleol, yn hytrach na theithio am oriau, rydych nid yn unig yn helpu'r economi leol, yn amddiffyn ein amgylchedd ac yn rhoi mwy o amser i fwynhau'r Wyl efo teulu."
Mae manylion am siopau lleol i'w gweld ar <https://bit.ly/prynulleol2020> a petai busnes am gael eu hychwanegu i'r rhestr siopa o, gellir cysylltu â twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru
Bydd parcio am ddim ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd rhwng 12 a 27 Rhagfyr. Os ydych yn parcio mewn maes parcio sy'n eiddo i gorff arall, dylech wirio'r trefniadau yn ofalus cyn parcio gan ei bod yn bosib na fydd parcio am ddim ar gael yno.

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
☎ 01248 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

Cyfarchion yr Wyl

Dymuniadau gorau i oll drigolion Gerlan dros yr wyl.

Cydymdeimlo

Derbyniwyd y newyddion trist iawn o Giltrefnus. Bu farw Kelly Morgan yn hynod ifanc. Mae ein meddyliau i gyd efo'i gŵr Arwyn a'r plant Ethan, Sadie, Abbie a Mia a'i theulu i gyd yn dilyn eu colled enbyd.
Colled arall i'r Gerlan oedd marwolaeth

Mrs Jennie Jones o Gwaun Gwail gynt. Yn diweddarach, symudodd Anti Jini neu Jennie Perthi i Ffordd Bangor ac yna Fryn Caseg. Bydd colled mawr ar ôl Anti Jini - 'roedd yn aelod ffyddlon o'r capel, yn mynychu cymdeithasau, digwyddiadau cymunedol eraill ac bob tro yn barod ei sgwrs a'i chymwynas. Gyrrwn ein cydymdeimlad a'n cofon cynhesaf at Huw a Gwenno, Richard a Rhian, Helen a Dafydd, William a Mina a'r teulu i gyd wrth golli mam, nain a hen nain arbennig iawn.

Dymuniadau Gorau

Mae Mari Davies, Tŷ Dŵr, wedi treulio cyfnod o'i chwrs meddygaeth yn ddiweddar yn y feddygfa yn Bala. Er ei fod yn gyfnod heriol i weithio yn y maes yma, mae wedi mwynhau ei phrofiad yno'n fawr iawn ac wedi dysgu llawer. Pob lwc ar weddill ei 5ed blwyddyn yn y Brifysgol yng Nghaerdydd.

Plaid Lafur

Cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon yng nghanol mis Tachwedd trwy ddefnyddio Zoom i drafod adroddiad Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a hefyd materion mewnol y Blaid Lafur.

Y mae pedwar ar y restr fer ar gyfer dewis ymgeisydd Senedd Cymru yn mis Rhagfyr, sef dau ddyn a dwy ddynes.

Deallwn fod Cyngor Gwynedd yn cynnal ymgynghoriad ar addysg ôl 16 yn Arfon a dylid ymateb cyn Rhagfyr 22.

Y mae llywodraeth Lafur Cymru'n cynnig grantiau i gyflogwyr os y byddant yn cyflogi prentisiaid dan 25 oed, a bydd pobl 16 ac 17 oed yn cael pleidleisio yn etholiad Senedd Cymru'r flwyddyn nesaf.

Glasinfryn a Chaerhun

Cartref Newydd

Pob dymuniad da a hapusrwydd i Mr. a Mrs. Arfon Evans, gynt o Penhower Uchaf, Caerhun sydd wedi symud i 39, Cae Garnedd, Penrhosgarnedd, i fyw.
Bu'r ddau yn weithgar a chefnogol iawn i'r ardal dros y blynyddoedd, gyda Elizabeth yn Drysorydd Sefydliad y Merched ac yn aelod ffyddlon wedyn yng Nghylch Glasinfryn. Mae Ingrid a David Farrar, gynt o Penhower Uchaf Newydd wedi symud yn ôl i Swydd Efrog i fyw er mwyn bod yn nes at eu mab. Braf yw cael croesawu teulu ifanc i Penhower Uchaf Newydd ac hefyd i Brithdir Mawr, mae eisiau gwaed ifanc i'r ardal!

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofon cynhesaf at Mr. Allan Jones, Bwthyn y Waen Wen, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers tua mis bellach, brysiwch wella! Yr un yw'r dymuniad i amryw o drigolion yr ardal sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, adferiad buan i chwi gyd.

Calendr Llais Ogwan

Os hoffech galendr Llais Ogwan 2021, y pris fel y llynedd, £4, mae gan Mair Griffiths, Pen y Bryn gyflenwad yn y tŷ, rhowch ffôn i sicrhau copi - 352966.

Cyfarchion yr Wyl

Nadolig Llawn i holl ddarllenwyr digidol yr ardal! Gobeithiwn y gwelwn oleuni ar ddiwedd y twnel tywyll yma sydd wedi bodoli eleni ac y cawn weld weithgareddau yn ail ddechrau yn y Ganolfan.

gair neu ddau

John Pritchard

NADOLIG 2020

Bydd y Nadolig wrth law erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn. Ar drothwy dydd olaf Tachwedd yr wyf fi'n eu sgwennu, ac yn ôl a welaf bydd hwn yn Nadolig gwahanol. Wn i ddim pwy fydd yma. Ddaw'r teulu ddim o Lerpwl. Mae'n bosibl y down nhw o Gaerdydd. O leiaf mi ddylai'r mab fenga gael ei ryddhau o'i garchar colegol ym Mangor erbyn hynny. Yr un fydd y stori mewn cannoedd o gartrefi yn yr ardaloedd hyn wrth i bawb orfod penderfynu beth sydd orau i'w wneud dan yr amgylchiadau anarferol y buom yn eu hwynebu ers mis Mawrth. Mae'r angen i fod yn ofalus yn parhau, a does ond gobeithio na fydd yr holl gymdeithasu a dathlu dros gyfnod y Nadolig yn dwysau'r argyfwng iechyd. Beth bynnag ein hamgylchiadau teuluol penodol, does ond gobeithio a gweddïo y bydd pawb yn ddiogel dros yr Ŵyl ac i'r flwyddyn newydd.

Bydd yn wahanol yn ein heglwysi a'n capeli ac yn ein hysgolion a'n cymunedau. Bydd llai o lawer o fugeiliaid a doethion ac angylion bychain i'w gweld, ac ychydig garolau a glywn. Bydd raid bodloni ar wrando ar gasgliadau o garolau; ac i mi, gwranddo ac ail wrando ar garolau Côr Seiriol yn y car fydd hynny'n ei olygu. Bydd gennych chithau o bosib eich ffefrynnau eich hunain. Mae Siôn Corn wedi addo dod i weld plant y Capel yn Llanberis, ac mae'n rhaid i mi benderfynu sut ac ymhle i'w groesawu'n ddiogel gan na fydd modd iddo

ddod atom i'r Capel.

Ond er mor wahanol fydd y Nadolig ar lawer ystyr, yr un fydd o hefyd. A thybed a fydd yr amgylchiadau dieithr mewn ffordd ryfedd yn help i ni sylweddoli hynny? Os na fydd modd cael y gweithgareddau arferol, ac os bydd raid gwneud heb elfennau o'r dathliadau y buom yn gyfarwydd â hwy, tybed a gawn ein hatgoffa o'r pethau sylfaenol? A chymaint yn wahanol, a ninnau wedi'n hamddifadu o rai pethau sy'n arfer bod yn ganolog i'n dathliadau, a gawn ni'n hatgoffa o'r hyn nad yw'n newid?

Beth bynnag fydd natur y dathliadau, yr un fydd neges y Nadolig am eni Ceidwad byd. Yr un fydd gwrthrych y mawl, sut bynnag y rhoddir y mawl hwnnw iddo. O bosib y gwelwn eisiau rhai pethau sy'n greiddiol i'n Nadolig traddodiadol personol, ond yr un fydd y Crist y bu Cristnogion pob oes yn ei addoli ac yn gorfoleddu ynddo. Ni all neb na dim newid hwnnw na'r hyn yr oedd ei ddyfodiad i'r byd yn ei olygu.

Covid-19 neu beidio, gwn y bydd yn Nadolig gwahanol ac anodd i rai ohonoch a gollodd anwyliaid yn ystod y flwyddyn. Boed i chi yn arbennig brofi diddanwch a gobaith y Crist a ddaeth yn oleuni ac yn fywyd i bawb a fyddai'n credu ynddo. A boed i chi, fel i'r gweddill ohonom, brofi llawenydd dirgel y Nadolig trwy adnabod y baban yr oedd cysgod y groes dros ei breseb, yn obaith i bobl fregus ac anghenus pob oes.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Cyfarchion yr Wyl

Nadolig Llawn i bawb o'r ardal. Cadwch yn saff a gobeithiwn am flwyddyn well yn 2021.

Marwolaethau

Bu'r wythnosau diwethaf yn hynod o drist yn Nhregarth a'r ardal pan fu farw tair o ferched y pentref.

Ar Dachwedd 14eg, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Jinnie Jones, neu Jinnie Perthi fel y gelwid hi yn lleol. Magwyd hi a'i chwiorydd yn fferm Perthi, Tregarth. Roedd yn briod gyda'r diweddar Richard ac yn fam i William, Huw, Richard a Helen, yn Nain, Hen-Nain ac yn chwaer i Glenys, Linor a Margaret. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu ar yr adeg trist yma i chi i gyd.

Trist oedd clywed y newyddion am farwolaeth Alwena Williams, Erw Wen, Ffordd Tanrhiw, Tregarth fu farw yn Hosbis Dewi Sant, Llandudno ar Dachwedd 20fed yn 75 mlwydd oed. Un o Ddyffryn Nantlle oedd Alwena yn enedigol ond bu hi a'i diweddar ŵr Elwyn yn byw yn Nhregarth ers blynnyddoedd

ac roedd ganddi lawer o gymdogion da a ffrindiau o'i chwmpas. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, Dydd Llun, Tachwedd 30. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda'i hunig fab Tony a gweddill y teulu yn eu tristwch.

Yn dawel yng nghwmni ei theulu yn Y Garreg Wen, 12 Tal y Cae, Tregarth bu farw Carys Williams, yn 70 oed, priod Arthur (Garej Ffrydlas, Bethesda) a mam Sioned, Rhys a Llion, Nain i Lois, Cadi, Nel, Mali, Twm, Llïo, Haf a Caio, a chwaer Beryl. Roedd Carys yn Nyrs Ardal yn Nyffryn Ogwen ac yn adnabyddus fel nyrs hynod garedig, gofalgar ac annwyl gan bawb. Bydd colled enfawr ar ei hôl ond fe gofiwn am ei dewrder, ei charedigrwydd a'i hagwedd iach at fywyd. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor, Dydd Iau, Rhagfyr 3.

Penblwydd Hapus

Dathlodd William Hughes, Isallt, Allt Cerrig Llwydion, ei ben-blwydd yn 97 mlwydd oed ar ddiwedd Mis Tachwedd. Llongyfarchiadau mawr gan bawb yn yr ardal.

Capel Shiloh, Tregarth

Ydi mae'r capel ar agor bob Nos Sul am 5 o'r gloch ar gyfer gwasanaethau byr o hanner awr gan ddilyn canllawiau'r Senedd yng Nghaerdydd. Diolch o galon i'r rhai fu'n gyfrifol am yr oedfaon yn ddiweddar sef, Richard Gillion, Ffôn Rowlinson, Dr Jennie Hurd a Dafydd Coetmor Williams ac eraill o'r aelodau.

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth un o'n haelodau sef Alwena Williams, Erw Wen. Cydymdeimlwn gyda Tony a gweddill y teulu.

Merched y Wawr


Adre mae pawb o'r aelodau ond mae'r gangen yma o hyd a'r aelodau yn cysylltu gyda'i gilydd ar y ffôn, y we ac yn y blaen. Dymunwn Nadolig Llawn iawn i bob un ohonoch gan obeithio y cawn ddod at ein gilydd yn y dyfodol agos. Anfonwn ein cofon atoch i gyd.

Llongyfarchiadau i Linda Pritchard am ddod yn Nain i

Siwan Esyllt yng Nghaerdydd.

Dymunwn wellhad buan i Janet Jones fu yn yr Ysbyty yn ddiweddar ac eraill sydd heb fod yn rhy dda eu hiechyd.

Bydd colled fawr ar ôl tair o'n haelodau fu farw ym Mis Tachwedd sef Jennie Jones, Alwena Williams a Carys Williams. Cofon at eu teuluoedd a diolch am gael eu cwmni yn y gangen.



Marchnad Ogwen

Yn anffodus iawn, rydan ni wedi methu cynnal y Farchnad ers rhai misoedd bellach. Oherwydd rheolau cyfreithiol, nid yw wedi bod yn ddiogel i ni ei chynnal yn Neuadd Ogwen, nac yn unman arall a dweud y gwir. Un o'r meini tramgwydd yw'r rheol o gadw'r pellter o 2 fetr rhwng pobl a'u gilydd.

Mae nifer wedi bod yn holi ac wedi colli dod i'r marchnadoedd misol. Mae'r ddwy Farchnad Nadolig yn sicr wedi gadael bwlch. Fodd

bynag, y peth pwysicaf o ddigon yw cadw ein cwsmeriaid a'r Stondinwyr yn saff yn ystod y pla dieflig yma.

Byddwn yn ail ddechrau cynnal y Farchnad cyn gynted ag y bo modd ond yn y cyfamser, gallwch gysylltu gyda'r Stondinwyr trwy fynd ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a chlicio ar 'Stondinau'

Cadwch yn saff i gyd a gobeithio y cewch Nadolig gorau posib a 2021 well!



Llun: Tom Simone. Marchnad Ogwen, Rhagfyr 2018



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

 @CynghorwyrDyffrynOgwen

 @PlaidCymruOgwen



Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902



Penblwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs. Jean Bullock, Carneddi, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ym mis Tachwedd.

Cyfarchion Nadolig

Mae Emyr a Heulwen, Ystrad Awel, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau. Ni fyddant yn anfon cardiau eleni, ond byddant yn rhoi cyfraniad i'r Banc Bwyd.

Ysbyty

Bu sawl un yn yr ysbyty yn ystod y mis, ac anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan atynt. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw'r Llais; Mr. Frank Thomas, Glanogwen; Mrs. Betty Williams, Abercaseg; Mr. John Cooney, Glanffrydlas; Mrs. Jessie Jones, Stryd Glanafon; Mrs. Shirley Pritchard, Pant Glas.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad

at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:

Mrs. Glenys Morgan a'r teulu, Maes Coetmor, ar golli Mrs. Irene Rees Edwards, Bangor ar 5 Tachwedd. Bu'r angladd yn Eglwys Crist Glanogwen a mynwent Eglwys Coetmor ar ddydd Llun, 16 Tachwedd, gyda'r Parchedig Lloyd Jones yn gwasanaethu. Cafwyd teyrnged ar ran y teulu gan y Parchedig Cassie Jones.

Teulu'r ddiweddar Mrs. Kelly Edwards, Ciltrefnus, a fu farw yn 30 mlwydd oed.

Teulu Garej Ffrydlas ar golli Mrs. Carys Williams. Priod annwyl Mr. Arthur Williams, mam Sioned, Rhys a Llion a nain hoffus i'w hwyrion â'i hwyresau i gyd. Roedd yn chwaer arbennig ac agos i Mrs. Beryl Hughes.

Marwolaethau

Mrs. Jennie Jones
Ar 14 Tachwedd, yn yr ysbyty, bu farw Mrs. Jennie Jones, 11 Bryn Caseg (Gwaun y Gwail gynt), yn 90 mlwydd oed. Priod annwyl

y diweddar Mr. Richard Jones, mam a mam yng nghyfraith William a Mina, Huw a Gwenno, Richard a Rhian, a Helen a Dafydd. Roedd yn nain a hen nain hoffus a charedig, ac yn chwaer i Glenys, Linor a Margaret.

Roedd yn wraig arbennig o glên a charedig, ac wrth ei bodd yn cymdeithasu. Bu'n aelod ffyddlon o Ferched y Wawr ac yn selog iawn yng Nghapel Jerusalem, yn dilyn cau Capel y Gerlan. Yn anffodus, ni fu'r ieched yn dda ers peth amser, ond bu'r teulu yn ofalus iawn ohoni, yn arbennig Helen a Dafydd yn Sir Fôn.

Cynhaliwyd yr angladd ddydd Mawrth, 24 Tachwedd, yn Eglwys Crist Glanogwen ac Amlosgfa Bangor, gyda'r Parchedig Mary Jones yn gwasanaethu. Darllenwyd Salm 121 gan Gwenno, ac fe gyflwynwyd teyrnged y teulu gan Huw. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Gwilym Kendrick Davies
Ar 14 Tachwedd, yng nghartref

ei ferch yn 7 Glanffrydlas, bu farw Mr. Gwilym Kendrick Davies yn 69 oed. 'Roedd gynt o Rachub ac yn dad i Gareth, Lynne a John Gwyn, a hefyd yn daid a hen daid. Bu'r angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mercher, 25 Tachwedd. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Mark Antony Pritchard

Yn sydyn, yn Ysbyty Gwynedd ar 24 Tachwedd, bu farw Mark Antony Pritchard yn 50 mlwydd oed. Mab annwyl i Mrs. Shirley Pritchard a'r diweddar Gwilym Pritchard, a brawd i Siân a Iona.

Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor ar ddydd Gwener, 4 Rhagfyr.

Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth fawr o golli Mark.

Plas Ogwen

Hoffai staff a thrigolion Plas Ogwen ddymuno Cyfarchion y Tymor i bawb yn y Gymuned a estyn diolch i chi gyd am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Ymweliad Arbennig

Daeth criw o ddisgyblion Ysgol Llanllechid yn ddiweddar i ymweld â thrigolion Plas Ogwen i'n diddanu a chaneuon. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw, diolch yn fawr!

Yr Eglwys Unedig

Ail-agor y Capel

Wedi misoedd lawer o bryder a gofid, mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod erbyn hyn ar fin ail-agor y Capel. Bu'n gyfnod arbennig o anodd yn ein hanes, a gwyddom fod llawer ohonoch wedi bod yn poeni am ddyfodol yr Eglwys. Diolch i bob un ohonoch am eich ffyddlondeb a'ch dymuniadau da, ac am ddatgan eich gwerthfawrogiad o'r gwaith cynnal a chadw'r adeiladau sydd wedi bod yn mynd ymlaen, yn ogystal â'r gwaith o geisio cynnal ysbryd yr aelodau, a'r gymuned yn ehangach, yn ystod y cyfnod ansicr hwn.

Ymddiswyddiad

Gyda siom y derbyniasom ymddiswyddiad Mr. Emyr Roberts o fod yn Drysorydd a Blaenor yn Jerusalem. Bu Emyr yn deyrngar a chydwybodol i'r achos am flynyddoedd maith, ac 'rydym yn hynod o ddiolchgar iddo am ei holl waith. Bydd Mr. Dennis Dart yn ei olynu

fel Trysorydd ym mis Ionawr, a dymunwn yn dda iddo, gan ddiolch iddo am ei barodrwydd i ymgymryd â'r gwaith.

Marwolaethau

Gyda thristwch mawr, rhaid cofnodi i ni golli dwy aelod yn ystod y mis a aeth heibio. Bu Mrs. Jennie Jones yn aelod ffyddlon ac ymroddgar am flynyddoedd lawer, hyd nes i waeledd ei llethu, a bu Mrs. Carys Williams hithau yn hynod o weithgar ymhob agwedd o weithgareddau'r Eglwys. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf at y ddau deulu, gan obeithio y daw atgofion melyn i'ch cysuro yn yr oriau tywyll. Bydd colled enfawr ar ôl y ddwy ohonynt.

Y Banc Bwyd

Gan nad ydym wedi bod yn gallu casglu cyfraniadau ar gyfer yr uchod, penderfynodd y Pwyllgor Blaenoriaid ein bod yn anfon rhodd o

£100 yr un i Fanc Bwyd Partneriaeth Ogwen a Banc Bwyd Caernarfon.

Gwasanaethau

Cofiwch am y gwasanaeth ar y ffôn fore Sul, Rhagfyr 13, am 10 o'r gloch – yr un yw'r rhifau ag arfer. 'Rydym hefyd yn bwriadu cynnal gwasanaeth byr yn y Capel fore dydd Nadolig, am 9.30 o'r gloch, o dan arweiniad Y Parchedig R.O Jones.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi oherwydd gwaeledd neu lesgedd, gan ddymuno bendith Duw iddynt. Da deall bod Mrs. Nita Jones a Mrs. Eirian Mary Jones yn gwella'n foddhaol.

Dymuniadau

Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch.

Eglwys Crist, Glanogwen

Gwasanaethau Cyfnod y Nadolig

Oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod Cofid, yn anffodus ni fydd yn bosib cynnal gwasanaeth *Wrth y Preseb* eleni.

Cynhelir Gwasanaeth *Naw Llith a Charol* ar fore Sul, Rhagfyr 20fed, am 11 y bore.

Yn y gwasanaeth hwn derbynnir yn ddiolchgar, os dymunir, roddion at Banc Bwyd yr Eglwys Gadeiriol (sydd hefyd yn gweithredu ardal Dyffryn Ogwen). Mae'r tîm o wirfoddolwyr yn wir ddiolchgar am bob cyfraniad, ac mae'n ffordd o ymateb i eiriau

ein Gwaredwr:

'yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain, fy nghymrodyr, i mi y gwnaethoch'.

Mae llawer teulu yn profi cyfnod o dlodi oherwydd yr amgylchiadau presennol, a mae hyn yn ffordd hawdd i ni estyn llaw fel eglwysi i helpu rhai llai ffodus yn ein cymuned.

Cynhelir Cymun y Nadolig ar Noswyl yr Wyl yn Eglwys Glanogwen am 7 yr hwyr i ddathlu geni Crist.

Oherwydd y cyfyngiadau ar y nifer

sy'n cael bod yn bresennol ar y funud, gofynnwn yn garedig i rai fuasai'n hoffi bod yn bresennol yn y gwasanaethau hyn roi caniad i Barbara ddiwrnod ynghynt i sicrhau bod lle ar gael.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb sydd yn gaeth i'w cartrefi yn ystod y cyfnod anodd hwn, gan obeithio y cawn ryddid yn fuan i ddod at ein gilydd i gyd-addoli a chyd-gymdeithasu.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Dathlu'r Daucanmlwyddiant!

Yn ôl ym mis Mawrth 2020, tynnodd Dr. John Llywelyn Williams a Lowri Williams ein sylw at ddathliad go arbennig yma ym Methesda - daucanmlwyddiant ein pentref. Roedd hi'n syndod i cynifer ohonom fod Bethesda yn dathlu'r pen-blwydd arbennig yma eleni. Er ein bod wedi mawr obeithio gallu dathlu'r achlysur fel cymuned, bu'n rhaid gohirio unrhyw obeithion o gyflawni hynny oherwydd amgylchiadau'r coronafeirws.

Mae yna bwyllgor dathlu o wahanol bartneriaid eisoes wedi cael ei ffurfio ar gyfer dathlu'r daucanmlwyddiant. Bu un o bobl ifanc yr ardal, Caleb Rhys Jones o'r Gerlan, yn gweithio efo Partneriaeth Ogwen am gyfnod o 8 wythnos dros yr haf. Roedd Caleb yn gyfrifol am gyd-weithio efo rhai o sefydliadau'r Dyffryn er mwyn llunio rhaglen ddathlu ar gyfer nodi achlysur y daucanmlwyddiant y flwyddyn nesaf. Oherwydd natur yr amgylchiadau presennol, mae hi dal yn anodd iawn rhagdybio pa bryd fydd y gymuned yn cael dod at ei gilydd i ddathlu'r pen-blwydd.

Yn y cyfamser, mae Partneriaeth Ogwen wedi llwyddo i sicrhau nawdd o £10,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn dechrau ar y gwaith o hyrwyddo daucanmlwyddiant Bethesda. Bydd y nawdd yn cael ei ddefnyddio i



Llun: Nick Pipe

ddatblygu ffilm newydd gyda'r bwriad o ddehongli hanes a threftadaeth Bethesda trwy lygaid y gymuned - eich llygaid chi.

Dyweddodd Caleb, ar ran Partneriaeth Ogwen. "Da ni'n credu ei bod hi'n eithriadol o bwysig bod ein cymuned yn cael y cyfle i arwain y prosiect. Ein gobaith ydi y bydd hyn yn ein galluogi i gasglu ystod eang o luniau, cyfweiliadau, deunydd ysgrifenedig, crefftau ac ati. Er mwyn mynd ati i gasglu'r deunydd, bydd cyfres o sesiynau galw heibio yn cael eu trefnu ym Methesda (gan ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol.) Bydd cyfle i'r gymuned gael arddangos a rhannu eu heiddo personol yn y sesiynau hyn."

"Byddwn yn llunio cofnod o fanylion yr eiddo er mwyn ffurfio stôr mawr o wybodaeth ar gyfer mynd ati i ddatblygu'r ffilm. 'Da ni'n bwriadu arddangos eitemau yn ffenestri siopau Stryd Fawr Bethesda dros y misoedd

nesaf hefyd. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at gael gweld be' yn union sydd dan glo yng nghypryddau pobol y Dyffryn!"

Ychwanegodd Meleri Davies, Prif Weithredwr Partneriaeth Ogwen "Mi fydd hwn yn brosiect eithriadol o gyffrous i bawb yma yn Nyffryn Ogwen. Mae'r penderfyniad i ddatblygu ffilm a chynnal y gwaith ymchwil gymunedol yn seiliedig ar ddiogelu a chofnodi elfennau o dreftadaeth a fyddai, o bosib, byth yn cael eu cofnodi fel arall. Er mai prif nôd y ffilm ydi cynyddu dealltwriaeth ein cymuned o dreftadaeth Bethesda, mi yda ni'n hyderus y bydd y gwaith yn cael ei rannu a'i amlygu'n ehangach hefyd."

Bydd mwy o fanylion ynglyn â'r sesiynau galw heibio a chyfleoedd i wirfoddoli yn cael eu cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol Partneriaeth Ogwen (Facebook 'Partneriaeth Ogwen'; www.partneriaethogwen.cymru; www.ogwen.cymru) yn fuan.

Jam Cartra'

ANGHARAD a NEVILLE HUGHES,
14 Pant, Bethesda.
(01248 600853)

Stoc Amrywiol ar gyfer y Nadolig

Mwyar Duon* Mwyar Duon ac Afal*
Mefus* Mafon ac Afal* Llus a Riwbob*
Cyrrens Duon* Riwbob a Sunsur*
Eirin Fictoria ac Oren* Cwsberis*
Jeli Mwyar Duon ac Afal*
Jeli Cyrrens Coch

(Prisiau: £1.30; £2.00; £2.70) hefyd
Pecynnau Anrheg Nadolig - £5.00

Os nad yw'n bosibl i chi gysylltu â Siop Ogwen neu wefan Cadwyn Ogwen, ffoniwch y rhif uchod.

Gallwn ddanfôn yn lleol.
(Elw at elusennau ac achosion yn Nyffryn Ogwen)

BYSUS D. J. Owens
RHWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÌ.

Bysus Gwyrdd Rhlwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Pentir

Cynrig a Carys Hughes
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
☎ 01248 601318
carys16@hotmail.com

Atgofon y Nadolig
Mynd am dro yn y tywyllwch i weld ffenestri Nadolig Pentir a Rhyd-y-Groes
Un o brofiadau plentyndod sy'n fyw yn fy nghof yw mynd am dro yn ystod y nos gyda'n nhad. Hynny yw, mynd yn bell o olau stryd i'r tywyllwch er mwyn rhyfeddu ar y sêr a'r planedau.
Byddai'n antur, yn hwyl, a hynny fwy byth os oeddwn wedi derbyn tortsh yn fy hosan 'Dolig.
Mae'r diddordeb yn y sêr yn parhau a hynny'n ddiddorol gan fy mod yn byw ychydig daflad carreg o gartref genedigol Arfonwyson. Tybed beth fyddai ei ymateb pe bai'n sefyll wrth fy ysgwydd yn disgwyl i'r lloeren ryngwladol 'International Space Station' hedfan dros Bentir?
Adar y nos oeddem yn Nhŷr Ysgol, Rhiwlas. Gyda tharo'r cloc am hanner nos byddai'r tegell mynd ymlaen ar gyfer paned Mam. Fy

Nhad wedyn, yn chwilio am ei gôt er mwyn mynd a'r ci am dro i waelod Lôn Bach Awyr.
Pryd fuoch chi am dro yn y tywyllwch? Wel, beth am wneud hynny yn ystod cyfnod y Nadolig?
Mae'r ardalwyr, unwaith eto am addurno ffenestri eu tai fel rhan o ddathliadau'r Nadolig.
Er bod Tafarn y Faenol wedi cau am y tro, mae'r bragdy wedi rhoi caniatâd i'r ffenestri gael eu haddurno. Y ffenestri yma fydd y cyntaf i'w goleuo a hynny ar 1af Rhagfyr. Bydd ffenestri newydd yn ymuno â'r cynllun pob noson fel yn y diwedd bydd dau ddwsin wedi ei goleuo erbyn 24ain Rhagfyr.
Yn ddiddorol mae un o'r pentrefwyr yn enedigol o'r Iseldiroedd ac mae hanes ffenestri Nadolig Pentir wedi cyrraedd y wlad honno. Bydd cymuned Amersfoort yn cychwyn addurno ffenestri am y tro cyntaf yn ystod Nadolig 2020.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Addewais yn ein rhifyn d'wetha' y byddwn yn dyfynnu ambell gofnod o ddyddiaduron David D. Evans (Dafydd Ifans, Glanrafon), a dyma fynd ati i wneud hynny. Mae ambell gofnod wedi deffro rhyw atgof neu'i gilydd ynof – gobeithiaf y bydd rhai ohonoch chi, ddarlennwyr, yn cael profiadau cyffelyb.

Hydref 7, 1914: Willie Roberts (Joiner) ... yn priodi Dorcas Davies, Gornal.
Bydd sawl un yn cofio'r gŵr bychan hwnnw oedd yn byw yn Rhif 1 Y Gornal ar gyffordd y Stryd Fawr a Gallt Pen-y-bryn. Arferai fod yn un o selogion y maes bowlïo oedd ar y dde wedi i chi groesi Pont Ring i Barc Meurig. Gyda llaw, 'Pont yr Inn' oedd enw gwreiddiol hon gan ei bod yn croesi Afon Ogwen i'r Parc oddi ar bilar wrth gefn y Douglas Arms i bilar tebyg yr ochr arall i'r afon. Yna ysgubwyd hi ymaith gan lifogydd anarferol o uchel a chryf ac yn hytrach na'i hailgodi yn yr un fan, penderfynwyd cael hyd i le tawelach yn yr afon lle nad oedd y lli mor gryf. Dewiswyd y safle lle mae'r bont yn sefyll hyd heddiw ond cadwyd yr enw, er ei newid fymryn ar lafar.
Yn ôl at Willie Roberts. Cofiaf mai Dorcas oedd enw'i wraig ac mae'r enw Beiblaidd hwnnw wedi aros yn fy nghof ers yr adegau hynny pan oeddwn yn hogyn ifanc iawn yn eistedd yn un o'r seti cefn yng Nghapel Jerusalem. Ambell nos Sul, byddai un o'r blaenoriaid yn cyhoeddi bod cyfarfod byr ar ôl yr oedfa, gyda chais i 'chwiorydd Dorcas' aros ar ôl. Be' wyddwn i'r adeg honno am fodolaeth Cymdeithas Dorcas (mudiad dyngarol a roddai gymorth i'r tlodion), gan mai'r unig Dorcas y gwyddwn i amdani oedd gwraig Willie Roberts, Gornal. Doeddwn i ddim chwaith yn deall mai 'chwiorydd' oedd y gair a ddefnyddid am ferched y capel. Ac wrth i mi arafu fy ngham ar y ffordd allan o'r capel er mwyn cael

cip ar y 'chwiorydd' oedd wedi aros ar ôl, yr hyn oedd yn syndod ac yn ddirgelwch i mi oedd fod gan Dorcas Roberts gymaint o chwiorydd yn aelodau yng Nghapel Jerusalem!

Ionawr 24, 1916: Newydd yn dod yma o Ffrainc bod Bob Jervis, Gerlan, wedi ei ladd.
Mab Thomas Jervis, Prifathro Ysgol y Gerlan, oedd Robert (Bob). Ar y ddau hyn y seiliodd Caradog Prichard y cymeriadau Preis Sgîl a'i fab, Bob Bach Sgîl, yn *Un Nos Ola Leuad*. Lladdwyd Bob yn ddamweiniol gan un o'i gyd-filwyr ar Ionawr 20, 1916, a chafodd ei gladdu mewn mynwent filwrol yn Ffrainc.
Yn *Byd Go Iawn Un Nos Ola Leuad* (Cyhoeddiadau Barddas, 2008), cynhwysais ragor o fanylion am Wiliam Roberts, Y Gornal, yn ogystal â'i lun (tud. 107-08), gydag ychwaneg o wybodaeth, hefyd, am Bob Jervis (a'i lun yntau) yn y bennod, 'Preis Sgîl a'i Deulu' (tud. 211-222).

Medi 10, 1918: Gair yn hysbysu bod Evan Gwilym Jones, Min Ogwen, wedi ei ladd – 24 oed.
Mab Lewis Jones, Min Ogwen, Ffordd Bangor, Bethesda, a brawd Gwladys, Emily (a ddaeth yn wraig i'r awdur a'r hanesydd lleol, Ernest Roberts) a Gwynetb (gwraig Buller Evans a fu'n Ysgrifennydd Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn, Ogwen am flynyddoedd).
Cafodd Evan Gwilym ei anafu ar Awst 30, 1918, a bu farw ychydig oriau'n ddiweddarach. Claddwyd ef yn y Geuxin Court British Cemetery, ger Doubleus, Ffrainc. Ysgrifennodd Benjamion Jones (Ben Fardd) chwech o englynion er cof amdano a'u cyhoeddi yn *Awelon* (tud. 82). Dim ond un gyfrol arall a gyhoeddodd Ben Fardd, sef *Cerddi'r Mynydd*, ond gwn iddo fod yn fardd toreithiog iawn ac yn enillydd nifer o wobrau mewn sawl eisteddfod – mor braf fyddai pe gellid cyhoeddi'r cerdd hynny i goffáu dyn siwrin oedd yn fardd da.

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrallt, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk





Nadolig Llawen

CHWILAIR

Plwyfi'r Hen Sir Gaernarfon

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDEG PLWYF YN YR HEN SIR GAERNARFON i'w ddarganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy llythyren ar wahân).

NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG YW.

Dyma atebion Tachwedd:- Abercaseg; Blaen y Nant; Braichmelyn; Bronydd; Cae Ifan Gymro; Cae'r Wern; Dinas; Glan Ffrydlas; Gerlan; Llanllechid; Rachub.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	L	L	A	N	Y	S	T	U	M	D	W	Y	E	D	E	R	N	V	S
H	E	I	M	G	V	H	D	W	Y	G	Y	F	Y	L	C	H	I	P	M
N	D	W	H	U	Z	M	X	V	M	E	L	L	T	E	Y	R	N	I	A
R	D	D	N	A	P	A	U	Q	U	S	OP	L	F	R	P	Y	Q	S	Z
A	G	N	R	H	C	U	M	W	N	O	Y	L	R	I	A	S	Z	T	U
E	T	F	Y	D	X	U	P	W	R	H	C	A	Q	H	W	E	H	Y	O
A	Y	E	E	G	G	E	O	M	H	E	P	N	T	T	C	B	B	L	C
H	U	U	J	P	E	L	T	M	I	V	V	A	D	C	S	B	B	L	F
N	R	F	O	G	J	R	V	I	I	R	R	E	X	I	E	M	H	T	T
Y	O	S	K	O	P	W	G	R	C	M	K	L	C	W	O	B	O	R	C
C	X	V	R	Y	H	S	T	N	M	R	E	H	F	I	R	Y	J	D	Z
S	H	B	C	W	O	S	C	R	Y	A	I	A	X	R	C	N	I	L	X
Y	J	J	M	B	W	T	E	X	M	W	D	E	X	F	N	K	F	U	P
N	C	Q	Y	O	I	L	F	E	R	Z	G	A	Q	E	Y	R	O	C	T
Y	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	A	J	R	K	R	R	J	C	L	N
L	B	E	T	W	S	G	A	R	M	O	N	N	E	T	B	R	V	O	G
J	P	W	P	G	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	B	S	V	T	X	E
U	G	P	E	N	M	A	C	H	N	O	H	S	L	Z	A	E	A	F	X
I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	L	O	G	D

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Yn Llais Ogwan Mis Mehefn 1975 ysgrifennodd y diweddar Caeron Roberts, Ysgrifennydd y côr, bod “ochr weinyddol i weithrediadau'r côr a bod pwyllgor cryf a threfnyddion ac ysgrifenyddion gwych.”

Aiff Caeron Roberts yn ei flaen i sôn am ddau ohonyn nhw sef Mr Dafydd Lloyd Parry a'r Dr Emyr Jones. Clywodd Caeron yr hen aelodau yn sôn sawl tro am Mr Parry a bod “y côr yn golygu popeth iddo - gŵr addfwyn a chydwybodol.” Roedd diddordeb arbennig yn y côr gan Dr Emyr Jones hefyd ac “er ei brysurdeb roedd o'n barod i weithio dros y côr bob amser - gŵr bonheddig, gŵr gwylaidd, gŵr Duw. Bu yn ls-lywydd am gyfnod hir hyd ei farwolaeth yn 1971.

Llywydd y côr ar yr adeg dan sylw oedd y Fon Janet Douglas Pennant. Wrth fwrw ymlaen gyda'i adroddiad mae Caeron yn nodi bod y pwyllgor yn weithgar iawn a bod pwyllgor arall yn




Rowland Wyn Jones gyda James Griffiths cyn teithio i'r Almaen gyda'r côr

rhedeg y Tôt er mwyn codi arian ar gyfer y dyfodol. Mae Caeron yn mynd rhagddo i ddweud bod rhaid sôn am wragedd yr aelodau a fu'n gweithio mor galed i gasglu dros fil o bunnau mewn ychydig dros flwyddyn i gael gyrru ymlaen “i brynu gwisg bwrpasol i'r aelodau.”

Arweinydd newydd
Yn yr adroddiad yn Llais Ogwan mae camgymeriad golygyddol wedi digwydd oherwydd yn yr is bennawd a roddwyd i'r adran nesa mae'n dweud “CYFEILYDD NEWYDD”. Ond sôn y mae'r adran honno am **arweinydd** newydd, oherwydd dywedir, “Ar ddiwedd

tymor 1973, bu raid i Mrs Menai Williams ymddiswyddo oherwydd yr holl alwadau eraill oedd ganddi ac aed ati ar unwaith i chwilio am arweinydd newydd. Y penderfyniad a wnaed oedd gwahodd Mr Rowland Wyn Jones, pennaeth adran cerdd, y Coleg Normal i fod yn arweinydd y côr. Cynhaliwyd amryw o gyngherddau o dan ei arweinyddiaeth - dau ohonynt yn nodedig iawn, sef cyngerdd i gynrychiolwyr UNESCO o wahanol wledydd drwy'r byd a gynhaliwyd yn y Coleg Normal ac un arall gyda chôr meibion Caernarfon, Côr Ferodo, yn yr Eglwys Gadeiriol. Dywedir ymhellach fod y côr am gystadlu yn Eisteddfod Bro Dwyfor ym Mis Awst. Yn ychwanegol at hynny adroddwyd fod y côr wedi cymryd rhan yn y bedwaredd ŵyl i Fil o Leisiau yn Neuadd Albert, Llundain. Aeth cant a hanner o aelodau, gwragedd, perthnasau a charedigion i Lundain a mwynhau penwythnos difyr a hwyliog.



Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Iolo Puw Jones o'r Felinheli.

- 1
- Be' ydy dy enw llawn? Iolo Puw Jones.
- 2
- Oed? 50 oed
- 3
- Gwaith Rhedeg cwmni Byw Bywyd
- 3
- Lle wyt ti'n byw? Yn y Felinheli.
- 4
- Un o lle wyt ti'n wreiddiol?
- O Lanystumdwy yn Eifonydd.
- 5
- Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifo orau?
- Person positif, ddim munud yn llonydd, ac yn actio fel plentyn bach weithiau.
- 6
- Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?
- Dwy flynedd bellach.
- 7
- Pa lais wyt ti? Ail denor.
- 8
- Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?
- Dwi wedi canu mewn côr erioed ac mi ddwedais i wrthyf fi fy hun mod i am ail ymuno â chôr yn fy mhumdegau. Côr y Penrhyn oedd y dewis naturiol.
- 9
- Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?
- Gan ei bod bron yn Nadolig dwi wrth fy modd yn canu 'Cofio Crist'.



- 10
- Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?
- Joseph Calleja fel canwr clasurol a dwi'n hoffi gwrando ar Bill Withers hefyd.

- 11
- Beth ydy dy farn di am ganu pop?
- Mi wranda i ar rywbeth heblaw 'Thrash Metal'.
- 12
- Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?
- Dwi ddim wedi bod dramor efo'r côr ond wedi cael profiadau bythgofiadwy yn y ddwy flynedd dwi wedi bod yn aelod. Somerset House sy'n aros yn y cof fel perfformiad.
- 13
- Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?
- Chwarae 5 bob ochr, gwyllo Felin yn chwarae pêldroed, a cherdded mynyddoedd pan ga i gyfle.
- 14
- Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?
- Mi wnes i wirioneddol fwynhau cystadlu yn Eisteddfod Llanrwst ac felly mwy o'r math hynny o beth hwyrach?
- 15
- Unrhyw sylw arall yn ymwneud â'r côr?
- Mae bod yn aelod o'r côr wedi bod yn dda i'r meddwl ac yn gyfle i anghofio am gyflymder bywyd a chael bod yng nghwmni criw hwyliog ac agos atoch chi. Roedd Jac Griffith, brawd nain yn aelod o'r côr.

Ysgol Llanllechid

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cofion cynhesaf at deulu Mr. Stephen Jones, sy'n aelod o'n tim rheoli, sydd wedi colli eu taid yn ddiweddar, sef Mr. Ifor Williams.

Yn yr un modd, anfonwn ein cofion at deulu Mrs. Iona Robertson. Bu farw Mark Robertson, brawd Iona yn sydyn, ar ddiwedd mis Tachwedd. Cofion annwyl atoch Iona a'r teulu. Gwyddom hefyd nad yw mam Iona wedi bod yn dda yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi am wellhad buan. Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Selwyn Thomas yn eich colled yn ogystal. Cofion atoch i gyd.

Bocsys Nadolig

Llawer iawn o ddiolch i bawb a roddodd nwyddau mewn bocs y Nadolig hwn ar gyfer ymgyrch T4U. Casglwyd deugain o focsys a diolch i Anti Wendy am eu cludo i'r siop Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb am gefnogi'r achos da hwn.

Beddgelert

Ydych chi wedi bod ym Meddgelert yn ddiweddar yn gweld y cerflun o Gelert, y ci ffyddlon? Mae'n werth mynd! Roedd ein plant bach Cyfnod Sylfaen ni wedi cael modd i fyw



yna, a daeth y stori yn wir yn eu meddyliau bach, chwilfrydig!

Pontio'r Cenedlaethau

Llawer iawn o ddiolch i Mrs Sharon Williams, rheolwraig Plas Ogwen, a'r staff am y croeso cynnes. Bu rhai o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen tu allan i Blas Ogwen yn codi llaw, ac yn canu i'r trigolion. Roedd hi'n fraind cael gweld ymateb y trigolion, ac oedd, roedd ambell ddeigryn. Pleser clywed rhai o'n plant ieuengaf yn morio canu Calon Lân! Diolch yn fawr am y croeso cynnes. I goroni'r cyfan, cafodd Ms Owenna godi llaw ar ei mam drwy'r ffenest. Gweithred fach i godi calon oedd hon mewn cyfnod cythryblus.

Teithiau Cerdedd

Yn ystod y tymor, bu ein disgyblion ar deithiau cerdded yn fynych o amgylch yr ardal er mwyn dysgu am eu cynefin. Diolch i chi bobl yr ardal am aros i sgwrsio hefo ni, ac am eich sylwadau cadarnhaol. Rydym wedi bod yn ymlwybro drwy Carneddi, Coed Meurig at Bont Tŵr, i enwi ond ychydig! Braf cael bod allan yn yr awyr iach!

Y Rhyfel Fawr a Ddyffryn Ogwen

C. Andre G. Lomozik. 2020. - *Y Rhai a Gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf 1914-1918 (Bethesda a'r Cyffiniau)*. Cyhoeddiad preifat, Bethesda.

Mae hanes Dyffryn Ogwen wedi derbyn sylw arbennig mewn nifer o gyhoeddiadau diweddar yn gyfrolau ac erthyglau academiaidd swmpus eu maint, yn flogiau a gwefannau amrywiol eu cynnwys, yn nodiadau difyr yn y Llais, ac mewn darlithoedd a draddodwyd ar amryfal bynciau diddorol yn rhaglenni y ddwy gymdeithas hanes.

Dyma groesawu cyfrol arall arbennig bwysig i'r casgliad, sef cyfrol gan un o haneswyr mwyaf diwyd, ac o bell ffordd y mwyaf diymhongar a'r mwyaf parod i rannu o'i wybodaeth yn y Dyffryn, sef Andre Lomozik. Cyfrol yw hon sydd yn dogfennu yr holl wybodaeth sydd ar gael am y bechgyn o'r ardal, nawdeg dau ohonynt ran nifer, a laddwyd yng nghyflafan waedlyd y Rhyfel Mawr 1914/18.

Mae'r ymchwil i'r gyfrol yn eithriadol fanwl - mewn papurau newydd y cyfnod, mewn dogfennau swyddogol y Swyddfa Gartref, ar gof a chadw rai o'r teuluoedd a amddifadwyd, ac mewn oriau meithion a dreuliwyd gan Andre yn cofnodi bedd argryffiadau ym mynwentydd y fro. Cyfrol arbennig sydd yn gofnod urddasol, bendefigaidd, a hynod haeddiannol yn coffau aberth y bechgyn ieuanc hynny nad oedd byth i ddychwelyd i ardal eu maboed oherwydd gwagedd rhyfela.

Saith cyfrol yn unig sydd wedi eu cyhoeddi, a hynny yn unol â gwyddeildra Andre, ond i'r sawl sy'n dymuno lloffa yn eu cynnwys bydd copi ar gael yn barhaol yn y canolfannau canlynol - Llyfrgell Gwynedd ym Methesda, Archifdy'r Brifysgol ym Mangor, Archifdy Gwynedd yng Nghaernarfon, Llyfrgell Cymdeithas Teuluoedd Gwynedd yng Nghaernarfon. Llongyfarchiadau Andre ar gyflawni camp ryfeddol.



Ysgol Abercaseg



Wythnos Eco

Yn ystod yr wythnos Eco, bu bob dosbarth yn arbrofi gydag arddulliau amrywiol a oedd yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau a hyrwyddo'r Cwricwlwm newydd, Donaldson. Cafodd y disgyblion amryw o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau wrth greu, cywain gwybodaeth, canfod a chyfrifo.

Dyma enghreifftiau o'r tasgau: Dylunio a chreu Eco Gôd newydd sbon i'r ysgol, Cynllunio iard ddelfrydol, Ymchwilio i ble mae gwastraff yn mynd, Dysgu am y grwpiau bwyd a phwysigrwydd cadw'n iawn, creu bocs cymorth cyntaf i'r meddwl, dysgu am ailgylchu a garddio a phalu yn Abercaseg.

Does dim amheuaeth bu'r wythnos yn llwyddiannus a hynod fuddiol i'r disgyblion ddatblygu amryw o sgiliau.



Plant Mewn Angen

Braf oedd gweld pawb yn gwisgo gwisg ffansi, Ein ffordd ni o ddathlu diwrnod Pudsey, Cafodd bawb hwyl yn addurno'r bisgedi, Ac yna cystadleuaeth dylunio bandana i'r tedi.

Colled

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r Morgan yn eu profedigaeth o golli ei mam yn dilyn gwaeledd. Hefyd i deulu'r Pritchard ar golli eu tad yn frawychus o sydyn. Bydd staff a holl gymuned yr ysgol yn gefn i'r plant a'r teulu yn ystod y cyfnod anodd sydd i ddod.

Ysgol Penybryn



Bocs Cymorth Cyntaf i'r Meddwl

Yn y cyfnod dyrys sydd ohoni, gall pawb deimlo'n ddigalon, yn rhwystredig ac yn orbryderus ar adegau. Felly fel rhan o'n gwersi lechyd a Lles aeth Blwyddyn 6 ati i wneud 'Bocs Cymorth Cyntaf i'r Meddwl'. Cawsom ymateb anhygoel, a phawb wedi mynd i drafferth i'w creu. Yn ddi-os, bydd y bocsys yn gysur mewn cyfnod amwys.

Sialens Ddarllen

Llongyfarchiadau enfawr i ddisgyblion Blwyddyn 6 am gwblhau Sialens Ddarllen. Pwrpas y sialens oedd datblygu hyder, rhuglder a dealltwriaeth plant o lyfrau Cymraeg. Da iawn chi, fe brofodd yn llwyddiant!

Llongyfarchiadau!

...enfawr i Betsi Lŵ (o ddosbarth Elidir) am gael ei dewis i drosleisio mewn cartŵn Nadoligaidd o'r enw "Sol" a fydd yn ei ddarlledu yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban dros gyfnod y Nadolig! Rydym yn hynod falch o dy lwyddiant Betsi!


Llongyfarchiadau mawr i Seren Roberts dosbarth Tryfan am ennill gwobr am gynllunio logo ar gyfer Carnifal Bethesda Mai 2022. Mae gwaith Seren yn glir a lliwgar ac yn cyfleu'r ymdeimlad o garnifal i'r dim. Erbyn hyn mae Seren wedi addasu ei logo ar ffurf digidol ar gyfer hyrwyddo'r carnifal felly byddwch yn siŵr o'i weld yn ystod y paratodau.

PEN Y CEUNANT ISAF

Y BWTHYN TÉ

www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606





Croesair Rhagfyr 2020


AR DRAWS

- 1 Disgrifio draenog blin efallai (5)
- 4 'Ogleuo' meddwn ar lafar (5)
- 8 Â drws eu dychymyg gall un o'r rhain sgwennu nofel (7)
- 9 Gwneud yn ddall wrth fynd ar goll i gwmwd (5)
- 10 Swnio fel dyn o faint da yn setlo dyled (5)
- 11 Mewn llys barn mae'n ceisio profi euogrwydd (7)
- 12 Gwasanaeth boreol traddodiadol carolau digyfeiliant (4,7)
- 16 Tamaid i aros pryd (7)
- 18 Dal ar gyfle i fynd i'r fro (5)
- 20 Trefnu cerdd dant, neu rai ffug yn gymorth i gnoi (5)
- 21 Oherwydd i godi ble mae'n drefnus (7)
- 22 Toriad gwawr (5)
- 23 Rhoi eli du yn ofalus i gael gwared â fo (5)

I LAWR

- 1 Glynllifon neu'r Faenol (6)
- 2 Tra pery, '----- yr amser' (5)
- 3 Tiroedd rhwng Cymru a Lloegr (7)
- 4 Go lew ydw i, fy mol sy yn boenus (5)
- 5 Cerbydau'r chwarel gynt (7)
- 6 24 awr, a dim mwy, hyd yn oed i Trebor y canwr (2,3)
- 7 Diffyg gofal (11)
- 13 Casineb (7)
- 14 Boddwyd y Cantre hwn am fod Seithenyn yn feddw (7)
- 15 '----- Cymru', Llyfr y Flwyddyn 2018 (6)
- 16 Teyrnas Frythonig yn yr Hen Ogledd (5)
- 17 Darllen emyn cyn ei ganu (5)
- 19 System gyfrif (5)

NADOLIG LLAWEN iawn i bob un ohonoch.



ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2020

AR DRAWS 1 Camu, 3 Dim, 8 Penllanw, 9 Bonyn, 10 Esgob, 11 Afrosgo, 12 Pymtheg Corgi, 17 Pwyllgor, 19 Ysgaw, 21 Lowri, 22 Ymyrryd, 23 Oer, 24 Miri

I LAWR 1 Cwpled, 2 Maneg, 3 Dinesig, 4 Miniog, 5 Casbeth, 6 Gwladgarwyr, 7 Aber, 13 Ynyswyr, 14 Olynydd, 15 Apelio, 16 Llwydni, 18 Gwin, 20 Gerddi

Ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig **i beidio** ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy'r post na thrwy'r twll llythyrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas!! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddifri unwaith eto.



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllïan@cynulliad.cymru



Hywel Williams
Aelod Seneddol Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williams@parliament.uk

Nyth y Gân



DRAENEN WEN YN Y MYNYDD

Am hir hen lwyn eleni
Sy'n edrych yno'n llwm,
A rhai o'r brigau bregus
Fel pe baent hwy o blwm.

Roedd hi'n wir anodd yno
I wreiddio a chael byw
Ymhlith rhyw gerrig garw
Yn naear cread Duw.

Ar dro aderyn darodd
Yr hedyn ar y tir;
Yno fe dreiddiodd drwyddo
A gafael cyn bo hir.

A hon gadd unigeddau
Y mynydd iddi'i hun;
Mae yno'n lledu'n llwydaidd
Wrth iddi fynd yn hŷn,

BORE O WANWYN

Y dyffryn sydd yn deffro, a synau
Mor swynol sydd iddo,
A'r afon fel pe'n rhwyfo
Yno'n y cwm ers cyn co'.

TYNFA'R MYNYDD

O edrych arno'n ddirodres, mynnu
Y mae hwn yn gynnes
Ein tynnu ni ato'n nes
I ni agor ei neges.

FFRWYTHLONDEB

Tawel lwyn eto 'leni yn darfod
Ei yrfa 'r ôl geni
I'w aeron gael ffrwythloni
Yn ei nod o'n bwydo ni.

MURDDUN

Lle eithiog, llaeth enwyn a hafau
Sydd yng nghof ei blentyn,
Ond heddiw nid oes tyddyn
Ym min gwaun na meini gwyn.

COED Y GAEAF

Heb eu dail mae'r rhain bob dydd yn aros
Heddiw'n oer a llonydd,
Ond o ddwyn gwanwyn i'r gwŷdd
Daw'r harddwch gyda'r hirddydd.

Dafydd Morris



TACHWEDD

Tachwedd ddaw i'r llechweddau, – y mis dwys,
Y mis du, di-olau;
Draw ar ros hwnt i'n drysau
Dros y grug caddug sy'n cau.

MYFYRDOD

Ynof mae'r byw aflonydd, – ei ferw
A'i fawredd ysblennydd,
A thrwy hyn rwy'n athronydd
Yn sôn am y dyfnder sydd.

PONTYDD

Ar Bont Ogwen
Y llyn difwstwr llonydd, – â'i ynys
Gynnil rhwng ceulennydd;
Y man yng nghysgod mynydd
I mi'n hafan gyfan, gudd.

Ar Bont Abercaseg

Yr haf mi geisïaf y Gaseg – a'i hwyr
Yn oriau ei gosteg;
Edau o ddŵr yn rhedeg,
A'r dydd yn huno mor deg.

Ar Bont y Tŵr

Ymdawelaf â'r afon – yn y llyn
Mor llyfn hyd ei chyrion;
Di-ofal yw fy nghalon
O gael hoe yn gwyllo hon.

Y NADOLIG

Y Brenin Mawr, y cawr cu, – yn gorwedd
O'i gariad mewn beudy;
Y bore hwn daw o'r bru
Yn Geidwad byd y gwadu.

Goronwy Wyn Owen



BLEDDYN

Fy hedd yw cwmni Bleddyn,
Un â dawn i hudo dyn;
Daw yn nes i'w anwesu,
Daw yn graff â'i naid yn gry',
A'i nwyf yn sicrwydd ei naid,
Ei hoen yn nawns ei enaid.
Ei gynffon y ffyddlonaf
A'i bryd bob amser yn braf;
Hedd yw adnabod Bleddyn,
Y ddawn sy'n foddhad i ddyn.



Siop y Barbwr

gan Wil Williams

golygwyd gan Derfel Roberts

Roedd y diweddar Wil Williams (1919 – 2011) - Wil Bach i bobl ardal Bethesda ond Wil Rhwyd i bobl Caergybi - yn frodor o Ddyffryn Ogwen ac yn gweithio fel dyn signal ar y rheilffordd yn Y Fali, Sir Fôn. Yn y 70au byddwn yn cael galwad ffôn gan Wil o'r bocs signal bron bob nos Sul. Cawn hanesion hen gymeriadau Bethesda i gyd ganddo ond am mai 'dyn dda' i'r ardal oeddwn i, ac yn rhy ifanc i gofio mwyafrif y cymeriadau a enwid ganddo doedd ei hanesion ddim yn golygu rhyw lawer i mi yn y cyfnod hwnnw. Oherwydd mai ar lafar roeddwn i'n derbyn yr hanesion hynny ni chofiaf i mi gynnwys fawr ddim ohonynt, os o gwbl, yn Llais Ogwan. Er hynny, roedd gwrando ar Wil yn traethu am 'yr hen ddyddiau' yn brofiad difyr tu hwnt.

Sefydlwyd y papur bro gennym yn 1974 ac roedd Wil wedi bod yn ddarlennydd brwd o'r Llais o'r cychwyn gan fod straeon am gymeriadau Dyffryn Ogwen yn britho'r tudalennau bryd hynny. Yn anffodus doedd Wil ddim wedi cofnodi ei atgofion ei hun ar glawr yr adeg honno a phetai wedi gwneud hynny mae'n debyg iawn y byddent wedi cael ymddangos ar dudalennau'r Llais.

Bellach, trwy garedigrwydd ei nai, George Owen o Fangor, (George Ty'n Llidiart, Sling gynt) mae rhai o atgofion Wil Williams yn cael gweld golau dydd a gobeithio y caiff cenedlaethau newydd o drigolion y fro hon yr un blas arnyn nhw ag a gafodd Wil yn eu traethu.

D.R.

Pennod 1 - Wil Williams yn brentis yn siop Tomi Barbar.



Wil Williams a Tomi Jones y Barbwr y tu allan i'r siop ar Stryd Fawr Bethesda

le, dyddiau hapus! "Good Old Days" fel dywed y Sais. Fedra i ddim deud i mi fod yn hogyn da nac yn hogyn drwg. Un direidus efallai. Cwsmer o'r enw William Hughes yn dod i siop Tomi Barbwr bob nos Wener am ei shêf wythnosol, ac un pryfoclyd oedd o. Pan oedd y brwsh shafio o gwmpas ei geg mi fyddai'n esgus ei frathu. Un noson mi aeth ei gellwair yn drech na Wil. Do, mi ildiais i'r demtasiwn o stwffio'r brwsh a'r sebon i'w geg. Bobol bach, dyna balafar, y joi baco a'r sebon a'r cwblwl yn cael ei boeri i fy wyneb i. Ffinau wedi dychryn braidd a William Hughes, yr hen batriarch yn cael hwyl ar fy mhen ac yn deud dan ei ddannedd, "Wnei di mo hyn'na eto y cythral bach."

Gyda llaw, y cwsmer cynta' i mi ei shafio oedd J. H. Williams, un a ddaeth wedyn yn Barchedig Ganghellor J. H. Williams brawd y cerddor Meirion Williams. "Rhaid i ti ddechra' efo rhywun Wil", meddai "a waeth i'r rhywun hwnnw fod yn fi." Roedd o'n mentro'n arw a ffinau'n ddim ond pymtheg oed.

Cwsmer arall oedd Enoc Hen Barc. Gŵr hoffus. Dyn wedi dysgu chwerthin am ei ben ei hun. Roedd o'n llawn o ffraethineb Dyffryn Ogwen. Un tro ar ôl cael shêf dyma Enoc yn edrych yn y drych a deud, "Wil, tydw i'n bishyn o foi rŵan - petai nhraed i dan bwrdd." A phawb oedd yn nabod Enoc yn deall y neges i'r dim. Hen deip iawn.

Pennod 2 - Cofio'r Sul

Wrth grwydro llwybrau'r cof mae ambell Sul yn sefyll allan megis rhyw Sul gwell na'r Suliau eraill. A minnau'n byw yn Nyffryn Ogwen yn ystod tridegau'r ganrif hon roedd hi'n arferiad i fynychu'r Ysgol Sul a'r Cwrdd Hwyrrol yn rheolaidd ar y Suliau. Rhwng y ddau gyfarfod caem ddigon o amser i fynd am dro i'r naill le a'r llall a'r Sul arbennig hwnnw dyma dri ohonom - sef Tomi Evans, Penygraig, Dafydd John, Sip Ffrwythau a minnau'n hel ein traed tua Chwarel y Penrhyn

Roedd hi'n ddiwrnod tawel braf heb na sŵn modur na thrên, dim ond brefiadau'r defaid ar y llethrau. Gan nad oedd neb i'w weld o gwmpas aethom ein tri ymlaen yn dalog gan ddilyn y trac a arweiniai i mewn i ddyfnderoedd y chwarel. Roedd hi'n tywyllu arnom gyda phob cam a minnau'n mynd i lawr yn is ac yn is i'r mynydd a deuai ambell i chwa oer o wynt i'n cyfarfod ar y traciau. Arweiniai'r llwybr tua'r bonc isaf un, sef Ponc Pennant ac os oedd hi'n dawel yn y ponciau agored roedd hi'n dawelach fyth yng

nghrombil y mynydd - dim ond sŵn y dafnau oerion yn disgyn fel plwm ac ambell un fel lwmp o rew ar fy ngwar. Yn sydyn, gan dorri ar y llethol, daeth gwaedd groch o rywle uwchben a honno'n atsain drwy'r twnnel fel pe bai carreg enfawr yn taflu'r llais o graig i glogwyn ac yn ôl drachefn yn ddiddiwedd bron.... Ymdawelodd, ond daeth y llais eilwaith, yn ddealladwy y tro hwn, "Dowch o'r lle 'na'r munud yma'r cnafon. I ni'r plant roedd fel llais rhyw gawr anferth a drigai yn y mynydd. Roedden ni wedi dychryn gormod i i ddianc ac yn ein braw doedd dim amdani ond ufuddhau'r munud hwnnw. Yn dawel a digon llwfr, gwnaethom ein ffordd i fyny o'r dwfn tua'r bonc uchaf cyn cyrraedd agoriad enfawr. Yno, yn union o'n blaenau safai gŵr, sef perchen y llais mae'n amlwg. Safai'n llonydd a'i lygaid arnom gyda'i ddwyllaw y tu ôl i'w gefn. Ond nid cawr o ddyn mohono ond gŵr bychan eiddil o gorff ydoedd ond er hynny hyderwn fod ganddo galon cymaint â'i lais. Yn dawel a phwylllog meddai, "Dowch ar fy ôl i hogia'," ond ar yr un gwynt, meddai, "mae Rowlands y plismon yn disgwyl amdanoch chi tua'r topia' cw." Sylwais nad gwep fel Sul gwlyb oedd ganddo ond yn hytrach roedd ganddo wyneb siriol. Wedi iddo agor dorau haearn trymion aethom oll i mewn i lifft ac i ni bryd hynny, lifft tebyg i i'r rhai a welid yn siopau Lerpwl ydoedd. I fyny â ni nes cyrraedd pen y chwarel a synnu fod yr awyr mor gynnes.

Parhad yn y rhifyn nesa'.

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Llun a Mawrth - wedi cau

Mercher – Gwener 18:00 – 23:00

Sadwrn 15:30 – 00:00

Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00

01248 602537

Pum Croes Filwrol

(parhad)

gan Andre Lomozik

Mae dau arall o ardal Bethesda a enillodd y Groes Filwrol, sef John Jack a Cecil Williams.

JOHN JACK

Nid yw'n cael ei enwi yn Llyfr Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai. Roedd teulu John Jack yn wreiddiol o'r Alban, a daeth y teulu i Fethesda gan fod tad John wedi cael gwaith fel peiriannydd yn chwarel y Penrhyn. Yn 1911 mae'r teulu yn byw yn Millyard House, Bethesda. Roedd y tad yn 51, ac o Lanarkshire, ei wraig Barbara yn 48, ac o Renfrew, Mary y ferch hynaf yn 22 oed ac wedi ei geni yn Glasgow, John Jack y mab yn 20 oed ac wedi ei eni yn Lanarkshire, yna dau o blant eraill, sef Ella a Thomas yn 17 a 11 oed a'r ddau wedi eu geni yn Glasgow.

Dyma adroddiad o'r North Wales Chronicle & Advertiser for the Principality, Hydref 25, 1918, t. 4:-

Military News – Captain John Jack, M. C., son of Mr and Mrs Jack, Millyard House, Penrhyn Quarry, is at present at St. Thomas' Hospital, London, having been severely wounded. He is reported to be progressing favourably. Captain Jack has been awarded a "bar" to his Military Cross.

'Roedd hyn yn golygu ei fod wedi cyflawni gweithred ddewr ychwanegol i'r un a enillodd iddo y Groes Filwrol wreiddiol.

Dyma adroddiad yn y London Gazette amdano:- *T/Capt. John Jack M.C. 14Bn., R.W.F. This officer handled the company of which he was in command with great skill during three days of severe fighting, pushing forward with courage and determination until he was wounded. He set a splendid example of coolness and resource to the men under him. (M.C.gazetted 1st January 1917.)*

Mae adroddiad arall yn ymddangos yn y North Wales Chronicle & Advertiser for the Principality, Hydref 27, 1917, t.8, lle mae Oscar Stanley Hughes, a John Jack yn cael eu henwi yn yr un adroddiad.

MILITARY NEWS – Sergt. J. R. Jones, Braichmelyn, is home on leave from France. He has taken part in many engagements, and had served in the South Africa War. Prior to enlisting he was at Penrhyn Quarry Hospital. Lieut. J. Jack, M.C. has returned to the front.

Capt. O. S. Hughes, M. C., Glanogwen was home on short leave from hospital, and is making steady progress towards recovery.

Bu brawd a chwaer John Jack, sef Thomas ac Ella, yn y rhyfel hefyd. 'Roedd Thomas yn aelod o'r 5th West Riding Battn, ac Ella yn aelod gyda'r W.R.A.F.

CECIL WILLIAMS

Cecil Williams oedd enw'r pumed person i dderbyn y Groes Filwrol, ond beth oedd ei gysylltiad â Bethesda?

Roedd yn aelod o'r Sherwood Foresters pan dderbyniodd y fedal. Roedd ei dad T. Williams, yn ficer ar eglwys St. Martin, yn Scampston,

Yorkshire, ar y pryd. Priodwyd Cecil â merch o'r enw Gertrude H. Talbot-Butt, yn eglwys St Ann's Llandegai, ar y 29^{ain} o Fedi 1917, ac mae adroddiad o'r briodas yn ymddangos yn y North Wales Chronicle & Advertiser for the Principality, Hydref 5, 1917, t. 8. Rhoddwyd y briodferch i ffwrdd gan Dr. W. G. Pritchard, yn absenoldeb anorfod ei thad, a gwasanaethwyd gan y Parch. W. Morgan M. A., gyda Dan Thomas B. A., Curad, Glanogwen, yn cynorthwyo. 'Roedd yr allor wedi ei orchuddio yn grand

gyda blodau gwyn, gan Mrs. Morgan. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud fod Cecil adref am gyfnod byr o'r rhyfel, a'i fod wedi derbyn y Groes Filwrol am ei ddewrder ar faes y gad. 'Roedd Miss Talbot-Butt yn hanu o Taton Park, Knutsford, ond yn byw yn Bryn Meurig ar y pryd. Ar ôl y briodas 'roedd y cwpwl yn mynd ymlaen i Landudno ar eu mis mêl.

Yna yn Y Drych, Gorffennaf 25, 1918, t. 6 cawn yr adroddiad yma gan Robert Parry (Trebor Llechid):- *Mae Mrs Williams, Ysgol y Cefnfaes, wedi derbyn hysbysrwydd fod ei gŵr, Capten Cecil Williams, M. C. wedi marw o'i glwyfau.*

Roedd Mrs Williams, (Gertrude H. Talbot-butt) wedi bod yn aelod o staff ysgol y Cefnfaes, ers rhai blynnyddoedd, a dyna gysylltiad Cecil Williams, ag ardal Bethesda. Ychydig dros chwe mis o fywyd priodasol gafwyd gan Cecil a Gertrude cyn ei farwolaeth ar faes y gâd. Gadawodd Gertrude ysgol y Cefnfaes ar y 31 o Fai 1918.



Ceisiadau am Nawdd Ariannol Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Llandygai yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol

Cysylltwch am ffurflen gais a bydd angen ei ddychwelyd gyda'ch Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich Banc erbyn **21 Ionawr 2021**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn **21 Ionawr 2021**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Llanllechid,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorllanllechid@ogwen.org

Ceisiadau am Nawdd Ariannol Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc erbyn **21 Ionawr 2021**

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Donna Watts,
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org